# Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Ionawr, 2017

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | T. Victor Hughes (Cadeirydd)<br>T Ll Hughes MBE (Is-gadeirydd)<br><br>R Dew, Jim Evans, John Griffith, W T Hughes, Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R Ll Jones, G O Jones, Richard Owain Jones, Alun W Mummery, R G Parry OBE, Dylan Rees, J A Roberts, Nicola Roberts, Alwyn Rowlands, Dafydd Rhys Thomas a Ieuan Williams |
| **WRTH LAW:** | Ysgrifennydd,<br>Trysorydd,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Lewis Davies, Jeffrey M Evans, H E Jones, A M Jones, R.Meirion Jones. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Neb |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diwethaf o Bwyllgor Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2016, yn amodol ar ddiwygio'r penderfyniad mewn perthynas ag Eitem 6 – Adolygu Trefniadau Llywodraethiant Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn fel a ganlyn :-

***'Bod 2 Ymddiriedolwr Annibynnol os sefydlir Cymdeithas Elusennol Ynys Môn'.***

**YN CODI O'R COFNODION**

**Grantiau Mawr – Adroddiad Gwaith**

Adroddodd y Trysorydd fod 31 o geisiadau wedi dod i law ar gyfer grantiau mawr ar ôl gwahodd ceisiadau. Bydd Swyddogion yn awry n gwerthuso'r ceisiadau hynny yn erbyn meini prawf cymhwyster yr Ymddiriedolaeth Elusennol ac fe'u cyflwynir wedi hynny i'r Pwyllgor Adfywio a gynhelir ar 10 Chwefror, 2017 i'w hystyried.

**3 ADRODDIAD BLYNYDDOL 2015/16**

Adroddodd y Trysorydd fod grantiau wedi eu dyrannu i 68 o sefydliadau gan ddefnyddio'r meini prawf a sefydlwyd a bod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i fod yn ffynhonnell gyllido bwysig ar gyfer elusennau lleol a mudiadau chwaraeon a gwirfoddol. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn parhau i gyddido oriel gelf Oriel Môn. Nodwyd y gweithgareddau a gynhelir yn yr Oriel yn yr adroddiad.

Mae perfformiad buddsoddi portffolio'r Ymddiriedolaeth Elusennol wedi cynhyrchu incwm buddsoddi o £585,561, sydd £175,583 yn uwch na'r targed o £409,978. Ar 31 Mawrth, 2016 'roedd y gronfa yn werth £19.070m, o gymharu â £20.30m ar 31 Mawrth, 2015. 'Roedd y gostyngiad yn bennaf oherwydd gostyngiad yng ngwerth buddsoddiadau ar farchnad Ecwiti'r DU. Eglurodd y Trysorydd i'r Pwyllgor fod gwerth y buddsoddiadau yn cael ei ddangos fel yr oedd ar un dyddiad penodol, gan

ychwanegu bod eu gwerth wedi codi'n sylweddol ers diwedd y flwyddyn ariannol , yn arbennig Buddsoddiadau Ecwiti'r DU ac mae'r gronfa bellach yn werth mwy nag yr oedd ar 31 Mawrth, 2015.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ar gyfer 2015/2016 ac awdurdodi'r Cadeirydd i lofnodi'r fersiwn derfynol.**

## 4 CYLLIDEB 2017/18

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd y Trysorydd bod yr adroddiad yn cadarnhau'r dyraniadau cyllidol ar gyfer 2017/18. Mae portffolio'r Ymddiriedolaeth Elusennol yn werth £22,487,169 ar hyn o bryd. Yn ôl yr amcangyfrif diweddaraf bydd yr incwm o'r buddsoddiadau ar gyfer 2017/18 yn £675,000. Nododd bod yr Ymddiriedolaeth, yn ei gyfarfod ar 13 Medi 2016, wedi cytuno i dalu cyfraniad at gyflogau Swyddogion Cyngor Sir Ynys Môn sy'n gweithredu ar ran yr Ymddiriedolaeth. Mae cyllideb o £30k yn 2017/18 ar gyfer gwneud y cyfraniadau hyn.

Y gyllideb a argymhellir ar gyfer grantiau yn 2017/18 yw: -

| | |
|---|---|
| Oriel Ynys Môn | £215k |
| Neuaddau Pentref | £ 70k |
| Cyfleusterau Chwaraeon a Chymunedol a Mân Grantiau | £100k |
| Grantiau mwy - Ymrwymiadau Tymor Hir: - | |
| Ffermwyr Ifanc Ynys Môn | £ 30k |
| Urdd Gobaith Cymru £40k | |
| Cymdeithas Gemau'r Ynysoedd Môn | £ 40k |
| Menter Môn | £110k |

Cynigir torri'r gyllideb ar gyfer Neuaddau Pentref i £70k o gymharu ag £80k yn 2016/17 a hynny i adlewyrchu'r gostyngiad yn nifer y ceisiadau am arian o'r gyllideb hon.

Yn ogystal, cynigir torri'r gyllideb ar gyfer Grantiau i Gyfleusterau Chwaraeon a Chymunedol a Mân-Grantiau i £100k o gymharu â £125k yn 2016/17 i adlewyrchu'r gostyngiad yn nifer y ceisiadau am arian o'r gyllideb hon.

Ychwanegodd y Trysorydd fod y Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau, yn ei gyfarfod ar 1 Tachwedd, 2016, wedi penderfynu gwneud darpariaeth o £350k ar gyfer cyllido grantiau mwy yn 2017/18.

Materion a godwyd gan Aelodau'r Ymddiriedolaeth Elusennol: -

- Cwestiynau ynglŷn â thelerau'r grant i Menter Môn mewn perthynas ag arian cyfatebol o ffynhonnell Ewropeaidd ac ynghylch a fydd y prosiect yn cael ei fonitro. Dywedodd y Trysorydd bod proses fonitro wedi cael ei sefydlu ac y cyflwynir adroddiad diweddaru i'r Pwyllgor yn ymhelaethu ar y defnydd a wneir o'r cyllid grant gan Menter Môn;
- Mynegodd yr Aelodau bryderon am y gostyngiad yn y gyllideb ar gyfer grantiau i Neuaddau Pentref a Chymuned a'r gyllideb ar gyfer Cyfleusterau Chwaraeon a Chymunedol a Mân-Grantiau. Argymhellwyd y dylid eu hadfer ac y dylid hysbysebu'r grantiau bychan blynyddol yn well, sef trwy'r wefan a chyfryngau cymdeithasol fel sy'n digwydd ar gyfer y grantiau mwy;
- 'Roedd yr Aelodau yn credu y dylai'r Pwyllgor Adfywio roi sylw gofalus i'r ceisiadau a gafwyd oherwydd y gallai ddigwydd bod y rhan fwyaf o'r ceisiadau yn haeddu cefnogaeth. Dywedodd y Trysorydd y gall y Pwyllgor Adfywio ofyn i'r Ymddiriedolaeth lawn gynyddu'r dyraniad ar gyfer grantiau mwy, ond mae'n rhaid i'r Ymddiriedolaeth fod yn ymwybodol ei bod yn dibynnu ar dwf cronfa'r Ymddiriedolaeth yn ystod y flwyddyn ariannol; bydd HSBC Investment Management yn cyflwyno rhagolygon mewn perthynas â thwf cronfa'r Ymddiriedolaeth.

**PENDERFYNWYD : -**

- **Mabwysiadu cyllideb ar gyfer 2017/18 fel a ganlyn: -**

| | |
|---|---|
| **Oriel Ynys Môn** | **£215k** |
| **Neuaddau Pentref** | **£80k** |
| **Cyfleusterau Chwaraeon a Chymunedol a Mân-Grantiau** | **£125k** |
| **Cyngor Sir Ynys Môn *(cyfraniad at gyflogau Swyddogion y Cyngor Sir)*** | **£30k** |
| **Grantiau mwy o'r Gronfa Cyfalaf** | **£350k** |
| **Ymrwymiadau Tymor Hir** | **£220k** |

- **Dirprwyo £125k i'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol i ymdrin â cheisiadau am Grantiau Cyfleusterau Chwaraeon a Chymunedol a Mân-Grantiau.**

**Mr. T. Victor Hughes**
**Chair**